Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Bodedern

**Bodedern**
**Bro Alaw**
**LL65 3SU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Bodedern

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Bodedern |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Dwyieithog |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 789 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 700 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 89 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Uwchradd dros y tair blynedd diwethaf yw 18.5%) | 20.1% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Uwchradd yw 23.0%) | 17% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 63% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/04/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | Hydref 2014 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Cymuned ofalgar yw Ysgol Uwchradd Bodedern sydd yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gynhwysiant, parch a chodi dyheadau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o fod yn rhan o ‘deulu Ysgol Boded’ ac yn teimlo eu bod yn ffynnu mewn ethos hapus a diogel. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau’n  effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion.

Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i ymaelodi â chlybiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol. Yn y clybiau hyn, mae disgyblion yn derbyn profiadau gwerthfawr i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol neu i fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol neu ymarfer corff. Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n diwallu anghenion bron bob disgybl.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi gan fynegi eu hunain yn briodol wrth ateb cwestiynau’r athro. Maent yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i leoli ffeithiau, i ddewis a dethol gwybodaeth ac i adnabod nodweddion arddull mewn testunau. Gallant fynegi eu hunain yn briodol wrth ysgrifennu yn estynedig yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw lleiafrif o athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg ddigon. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg. Er bod arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn adnabod yr angen i gryfhau’r ffocws ar sicrhau dilyniant ieithyddol disgyblion, nid yw’r cynllunio ar gyfer hyn wedi ei ddatblygu’n llawn.

Ym mwyafrif y gwersi, mae’r athrawon yn cynllunio’n effeithiol gan sicrhau eu bod yn cynnig lefel her briodol i’r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth bynciol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i’w sylwadau. Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, mewn lleiafrif o wersi mae’r diffygion yn yr addysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Ers ei benodi yn Ebrill 2020, mae’r pennaeth wedi gweithio’n ddiwyd i sefydlu ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ymysg y staff. Mae diwylliant ble mae staff yn awyddus i gael hyfforddiant i ddatblygu ansawdd eu gwaith a datblygu yn eu rolau. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi meithrin perthynas agos a chynhaliol â rhieni gan gyfathrebu trwy nosweithiau agored, cylchlythyron a fideos diddorol. Mae’r llywodraethwyr yn gweithio’n agos gydag arweinwyr ac yn deall eu cyfrifoldebau’n llawn. Mae llawer o arweinwyr canol yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn effeithiol ac yn ymgymryd ag amrediad o weithgareddau rheoli ansawdd defnyddiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn arfarnu’r addysgu gan ystyried ei effaith ar ddysgu yn ddigon agos. Golyga hyn nad yw arweinwyr bob amser yn cael digon o effaith ar wella ansawdd yr addysgu a’r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud ar lawr dosbarth.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac yn cael ei weithredu ar bob lefel

A2 Gwella'r addysgu trwy fynd i'r afael â'r diffygion a adnabuwyd yn yr adroddiad

A3 Grymuso prosesau hunanwerthuso trwy ystyried y ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddysgu disgyblion ar lawr y dosbarth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gallant adalw gwybodaeth flaenorol yn briodol er mwyn ei defnyddio yn eu gwersi. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan a chryf iawn yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth flaenorol i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol am sut i ddadansoddi'r gerdd 'Ofn' wrth drafod cerdd anghyfarwydd yn eu gwersi Cymraeg.  Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau o ganlyniad i ymyrraeth briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwersi.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando yn astud a pharchus ar gyfarwyddiadau ac esboniadau eu hathrawon. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau eu cyfoedion wrth drafod mewn grwpiau bach. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn addas wrth ateb cwestiynau'r athro. Mynega ychydig o ddisgyblion eu hunain yn goeth gan ddefnyddio geirfa soffistigedig yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn ddihyder wrth ddefnyddio terminoleg bynciol ac wrth strwythuro eu cyfraniadau yn y Gymraeg a Saesneg. Golyga hyn eu bod yn cynnig ymatebion byr, annatblygedig wrth ateb cwestiynau'r athro. Yn rhy aml, nid yw disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i ymarfer eu medrau Cymraeg wrth gynnig atebion yn y dosbarth neu wrth drafod â'u cyfoedion, gan dueddu i droi i'r Saesneg. Yn bennaf, mae hyn mewn gwersi ble nad oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran cyfraniadau llafar disgyblion gan gynnwys eu disgwyliadau wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau priodol i leoli ffeithiau a chywain gwybodaeth wrth ddarllen amrywiaeth o destunau ar draws y cwricwlwm. Gall y disgyblion hyn ddewis a dethol gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus er mwyn ateb cwestiynau penodol. Yn gyffredinol, maent yn adnabod nodweddion arddull yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddadansoddi geiriau caneuon poblogaidd yn eu gwersi Saesneg. O gael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus gan amrywio goslef llais a chyflymder yn addas. Gall lleiafrif y disgyblion grynhoi eu canfyddiadau o waith darllen yn llwyddiannus ac maent yn datblygu eu medrau dadansoddi yn briodol. Mae gan ychydig o ddisgyblion mwy galluog uwch fedrau darllen soffistigedig. Gallant ddadansoddi yn gelfydd sut a pham mae awduron yn dethol geiriau penodol i greu effaith ar y darllenydd gan arddangos y gallu i werthfawrogi testunau yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn briodol wrth ysgrifennu yn estynedig yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn paragraffu'n gywir ac yn trefnu eu syniadau'n effeithiol. Serch hyn, mae camgymeriadau sillafu a gramadeg esgeulus yn britho gwaith mwyafrif y disgyblion. Yn aml, mae disgyblion yn cynnwys bratiaith neu eiriau ansafonol yn eu gwaith yn y ddwy iaith ac nid ydynt yn ystyried y gynulleidfa'n ddigonol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy galluog yn ysgrifennu yn fedrus gan esbonio eu safbwyntiau'n gelfydd. Gallant strwythuro eu gwaith yn grefftus gan gynnwys enghreifftiau perthnasol i gefnogi'r hyn maent yn ei ddweud.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif cadarn. Er enghraifft, yn eu gwersi mathemateg, gallant ddefnyddio gwybodaeth flaenorol am rifau sgwâr ac algebra i symleiddio syrdiau. Gallant ddatrys problemau geiriol neu broblemau aml-gam yn llwyddiannus. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o waith siâp a mesur a gallant ddadansoddi data'n effeithiol. Medrant gymhwyso eu medrau rhifedd sylfaenol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cyfrifo nifer y gronynnau is-atomig mewn atom yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae diffygion ym medrau rhifedd sylfaenol lleiafrif y disgyblion yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu eu medrau rhifedd.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau digidol sylfaenol cadarn. Er enghraifft, mae disgyblion yn llunio cyflwyniadau deniadol yn cynnwys elfennau megis botymau a hypergysylltiadau yn eu gwersi Ffrangeg. Yn eu gwersi Cymraeg a'r dyniaethau, maent yn creu gwefannau a defnyddiant feddalwedd rhaglennu a dylunio yn addas yn eu gwersi technoleg.

Yn eu gwersi a chlybiau addysg gorfforol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perfformio amrywiaeth o fedrau corfforol yn gywir a gyda rheolaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau modur mân yn llwyddiannus wrth adeiladu cylchedau electroneg ac wrth gynllunio siapiau 2D isomedrig yn eu gwersi dylunio a thechnoleg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn arbrofi wrth greu patrymau a lliwiau gwahanol yn eu gwersi celf. Datblyga llawer o ddisgyblion eu medrau meddwl yn briodol, er enghraifft wrth ddadansoddi cynlluniau arbrofion gwyddonol er mwyn adnabod effaith addasu newidynnau penodol.

Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafaredd ac ysgrifennu. Gallant ddilyn cyfarwyddiadau a mynegi eu hunain gan ddefnyddio brawddegau syml.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn barod eu sgwrs wrth drafod eu gwaith ag ymwelwyr. Mewn llawer o wersi, maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol a'u medrau ehangach. Maent yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu hathrawon a chyfraniadau llafar eu cyfoedion ac yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth. Maent yn esbonio eu safbwyntiau'n glir gan ystyried ac adeiladu ar gyfraniadau eu cyfoedion.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion yn gryfder clir yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o falch o berthyn i "deulu Ysgol Boded", ac yn ffynnu yn yr ethos hapus, diogel, a gofalgar sydd wedi ei sefydlu. Mae teimlad cryf o gyfeillgarwch a chydweithio rhwng disgyblion. Teimla llawer o ddisgyblion eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac yn eu tro, maent yn arddangos lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch at yr ysgol, eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Maent yn cydnabod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu am eu lles ac maent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn hapus yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd unrhyw faterion yn ymwneud â bwlio yn cael eu trin yn gyflym, yn effeithiol ac yn sensitif. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael gan benaethiaid blwyddyn, cwnselwyr a staff bugeiliol yn 'Y Nyth' ac yn 'Ystafell 46'.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gynhwysol a bod cymuned yr ysgol yn dathlu amrywiaeth mewn modd cadarnhaol. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu hannog i barchu safbwyntiau eraill er enghraifft drwy weithio gydag elusen wrth hiliaeth. Mae'r clwb LGHDT+ yn darparu cefnogaeth bwysig ac yn rhoi llais i ddysgwyr o ran eu rhywioldeb. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall buddion gwneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â’u diet a’u lles emosiynol ac maent yn gwybod sut i gadw’n ddiogel ar-lein.

Mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr trwy weithgareddau amgen yn yr ardal ddysgu awyr agored. Er enghraifft, maent yn garddio ac adeiladu cartrefi ar gyfer draenogod. Mae’r gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin eu hunanhyder a’u hunan-barch.

Mae bron pob disgybl yn deall disgwyliadau’r ysgol o ran ymddygiad. Caiff disgyblion eu cymell gan systemau gwobrwyo’r ysgol i wella’u presenoldeb, prydlondeb, ymgysylltiad a chynnydd. Mae disgyblion yn rhannu eu barn yn rheolaidd ar agweddau o fywyd yr ysgol trwy holiaduron ac arolygon ac mae llawer yn teimlo eu bod yn dylanwadu ar bolisïau’r ysgol. Er enghraifft, maent wedi cyfrannu at lywio polisi ffonau symudol yr ysgol.

Mae llawer o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain ac i gymryd cyfrifoldebau. Cynrychiolir pob grŵp tiwtor ar gyngor yr ysgol lle maen nhw'n cael cyfleoedd gwerthfawr i rannu eu barn. Mae’r disgyblion yn cyflawni eu rolau â brwdfrydedd ac aeddfedrwydd, ac yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae’r cyngor ysgol wedi cynllunio gwelliannau i amgylchedd yr ysgol, fel sicrhau offer chwarae i gefnogi lles disgyblion.

Teimla llawer o ddisgyblion eu bod yn cael hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ‘Clybiau Boded’. Mae cyfraddau cyfranogiad yn uchel mewn ystod eang o glybiau a gweithgareddau gan gynnwys amrywiaeth o chwaraeon a chlybiau fel Arwyddiaith Prydeinig (British Sign Language), gemau bwrdd a ffermio. Mae’r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus, yn cael cyfleoedd i gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau hyn.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymroi’n ddiwyd mewn gwersi ac yn dangos dycnwch a dyfalbarhad. Maent yn gweithio'n annibynnol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u cynnydd. Cyrhaedda ychydig o ddisgyblion eu gwersi yn hwyr ac maent yn araf i setlo i waith. Yn ogystal, mae ychydig yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio wrth weithio'n annibynnol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos aeddfedrwydd, annibyniaeth ac uchelgais. Teimlant eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr ysgol a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Gwerthfawrogant y gefnogaeth fugeiliol ac academaidd a ddarperir gan yr ysgol. Maent yn hyderus y gallant gael cymorth neu gyngor, pryd bynnag y bo angen. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu eu medrau rhyngbersonol yn effeithiol trwy gefnogi disgyblion iau gyda’u medrau llythrennedd a rhifedd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith buddiol â'r disgyblion gan sefydlu naws gartrefol yn y gwersi. Mae ganddynt arferion defnyddiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym ar ddechrau'r wers ac yn barod i ddysgu.

Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol gan ddelio'n brydlon ag unrhyw ddisgyblion sy'n fân darfu neu ddim yn canolbwyntio. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir i ddisgyblion. Maent yn cylchu'r dosbarth yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion ar dasg ac yn deall beth sydd yn ddisgwyliedig ohonynt. Maent yn gwneud defnydd da o adnoddau dysgu gwerthfawr a deniadol, a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'r arddangosfeydd sydd yn eu hystafelloedd dysgu.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn gofyn cwestiynau caeedig priodol i fonitro gwybodaeth neu gynnydd y disgyblion. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif yr athrawon sydd yn defnyddio strategaethau holi yn fedrus i ddatblygu medrau meddwl disgyblion a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n estynedig gan ddatblygu eu medrau llafar.

Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod lefel yr her yn briodol ac yn dethol yn ofalus y gweithgareddau a fydd yn galluogi'r disgyblion i ddysgu. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, yn ogystal â'u dealltwriaeth bynciol. Maent yn sicrhau bod yna dempo addas, lle mae cyflymder yr addysgu yn cyd-fynd â chyflymder y dysgu. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng yr amser ble mae'r athro yn arwain ac amser i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

Mewn ychydig o wersi, mae yna addysgu o ansawdd uchel iawn, sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd buan a chryf. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o beth mae disgyblion yn gallu ei gyflawni ac maent yn herio disgyblion i feddwl yn ddwfn. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau disgyblion o fewn cyd-destunau perthnasol sydd wedi eu gwau yn gelfydd i mewn i'r gweithgareddau. Maent yn cynllunio'n fedrus i ddylunio gweithgareddau sydd yn galluogi disgyblion i gymhwyso eu dealltwriaeth a'u medrau mewn cyd-destunau amrywiol yn annibynnol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn fodelau iaith cadarn sydd yn cyflwyno termau pynciol newydd yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn eu gwaith ysgrifenedig nac yn eu hymatebion llafar.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn yr addysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent. Yn yr achosion hyn, yn aml mae lefel yr her yn rhy isel ac mae athrawon yn colli cyfleoedd i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau. Mae'r tasgau'n ailadroddus, mae gormod o sgaffaldau, mae disgyblion yn copïo oddi ar y bwrdd gwyn neu mae defnydd o daflenni gwaith sydd wedi eu dylunio fel eu bod yn cyfyngu ar ymatebion disgyblion. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn ddigon effeithiol i gynllunio sut mae disgyblion yn mynd i ddysgu cysyniadau mwy heriol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith. Maent yn cynnig sylwadau ar yr hyn mae'r disgybl wedi llwyddo i'w wneud yn dda a sut y gallent wella'u gwaith. Mae'r athrawon hyn yn gosod disgwyliadau priodol ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb a chywiro eu gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw adborth athrawon yn ddigon effeithiol. Mae sylwadau athrawon yn arwynebol neu nid ydynt yn mynnu bod disgyblion yn mynd ati i wella eu gwaith. Ar draws y cwricwlwm, mae adborth athrawon ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn anghyson. Golyga hyn nad yw disgyblion yn aml yn datblygu'r ffordd maent yn mynegi eu hunain at ystod o ddibenion neu maent yn ailadrodd camgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion bron bob disgybl. Yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'n cynnig arlwy o bynciau sy'n ymateb i ddyheadau'r disgyblion gan gydweithio'n effeithiol ag ysgolion lleol a choleg lleol i ymestyn y dewis ymhellach. Mae'r dewisiadau sydd ar gael yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi ehangu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i gynnwys mwy o gyrsiau galwedigaethol fel twristiaeth a chyfryngau creadigol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sy'n cefnogi'r cwricwlwm ac yn datblygu diddordebau disgyblion. Ymysg y rhain mae clybiau diddorol fel clwb ffermio, clwb salon a chlwb golff. Fel rhan o gyfoethogi'r cwricwlwm, mae'r ysgol wedi trefnu teithiau addysgol perthnasol i leoliadau lleol fel traeth Rhosneigr ac i Gwm Idwal.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm newydd yr ysgol sydd yn seiliedig ar sicrhau addysg o'r ansawdd gorau, codi dyheadau a pharatoi disgyblion ar gyfer byd gwaith. Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau llwyddiannus o gynllunio, treialu, adolygu a mireinio tasgau mewn ychydig o feysydd dysgu a phrofiad. Yn sgil hynny, mae arweinwyr wedi addasu eu cynlluniau'n fuddiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a medrau digidol disgyblion ar draws y pynciau yn briodol. Mae'r cydlynydd llythrennedd yn darparu arweiniad pwrpasol i'r holl staff ar sut i addasu a defnyddio tasgau sy'n darparu her i ddisgyblion wrth ddarllen a dehongli. Mae trefn o ddarparu adborth defnyddiol ar wella llythrennedd wedi ei chyflwyno a'i sefydlu ond mae yn ei dyddiau cynnar. Mae ymyraethau gan staff arbenigol yn golygu bod disgyblion sydd â medrau darllen gwan yn gwneud cynnydd cryf yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae'r cydlynydd cymhwysedd digidol yn cynnig arweiniad clir i staff er mwyn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau wrth gynhyrchu a chreu yn ddigidol. Er nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn cael ei chydlynu i'r un graddau â'r medrau eraill, nid yw'n effeithio'n andwyol ar y cyfleoedd mae disgyblion yn eu cael i gymhwyso eu medrau rhifedd.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am natur diwylliant eu hardal, Cymru a'r byd. Er enghraifft, mae gweithgareddau dysgu ynglŷn â hanes a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn amlwg o fewn pynciau a chyfnodau boreol. Yn ogystal, mae'r uned drawsgwricwlaidd ar 'Hunaniaeth' yn galluogi disgyblion i werthfawrogi'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn eu hardal leol ac yn ehangach.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddilyn cyrsiau a'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae disgyblion yn aml yn dewis dilyn eu cyrsiau yn y Saesneg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn gymuned ofalgar, lle mae diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn flaenoriaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr parchus sy'n falch o'u cymuned.

Mae'r tîm lles yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sydd wedi'i seilio ar gynhwysiant a pharch, ac ar godi dyheadau. Maent yn gweithio'n agos â'i gilydd a staff i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion, a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu a chael y gorau o fywyd ysgol. Mae disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd a'r ymyraethau buddiol sy'n cael eu cynnig, yn cynnwys ymyraethau llythrennedd a chefnogaeth lles emosiynol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, er enghraifft trwy gyflwyniadau gan yr heddlu a diwrnodau 'Criw Craidd'.

Mae'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a'r profiadau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas. Mewn gwersi ABCh ac addysg grefyddol, er enghraifft, mae disgyblion yn cael eu hannog i ddeall a pharchu diwylliannau a chrefyddau eraill. Mae'r cyfnod tiwtor dosbarth yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol hefyd i gynnal trafodaethau a myfyrio ar faterion cyfoes fel hiliaeth a chydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen ABCh ar draws yr ysgol wedi'i chynllunio'n ddigon strategol i godi ymwybyddiaeth lawn disgyblion o'u lles, iechyd meddwl a'u hanghenion emosiynol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn briodol. Mae proffiliau un tudalen a chynlluniau dysgu unigol yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i staff ynglŷn â sut i gefnogi'r disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr adolygiadau statudol blynyddol yn cynnwys y disgybl, rhieni a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Trwy'r 'map darpariaeth', mae'r disgyblion ADY yn cael eu tracio o ran sgoriau yn eu medrau sylfaenol, eu profion cenedlaethol, asesiadau ac yn erbyn eu targedau academaidd. Ar sail hyn, mae'r ysgol yn darparu nifer o ymyraethau gwerthfawr er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY, fel 'clwb clonc', clwb gwaith cartref a'r grŵp 'Rydw i'n gallu'.

Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi ymddygiad disgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad annerbyniol yn gyflym. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Trwy wrando ar ddisgyblion, mae'r ysgol wedi adnabod yn dda'r heriau cymdeithasol maent yn eu hwynebu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion fynegi eu barn ar amrywiaeth o faterion, er enghraifft, ymgynghorwyd â'r cyngor ysgol a'r fforymau blwyddyn ar gyfer ardal fwyta allanol. Mae strategaethau effeithiol ar waith hefyd er mwyn hybu presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr dros amser yn ddigon manwl.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwaraeon i helpu disgyblion wneud ymarfer corff a dewisiadau iach, er enghraifft trwy fynychu gweithgareddau allgyrsiol

gan gynnwys pêl-droed i ferched a bechgyn a Gwobr Dug Caeredin. Yn ogystal, mae cyfleoedd diwylliannol buddiol i ddisgyblion megis gweithgareddau'r clwb ukulele, clwb cerdd a chlwb celf.

Nodwedd gref yw'r cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar yrfaoedd i helpu disgyblion wneud dewisiadau am eu dyfodol. Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau agored a sesiynau blasu sy'n bodloni diddordebau disgyblion yn dda ac yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o yrfaoedd, gan gynnwys gyda chyflogwyr lleol. Gall pob disgybl fanteisio ar gymorth, cyngor ac arweiniad buddiol a chânt eu hannog i fynychu ffeiriau cenedlaethol a diwrnodau agored colegau neu brifysgolion.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn. Mae staff a llywodraethwyr yr ysgol yn derbyn hyfforddiant diogelu a gwrth-radicaleiddio ar lefel briodol. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rolau'n glir wrth ymgymryd â threfniadau diogelu a beth i'w wneud os bydd disgybl yn datgelu pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei benodi yn 2020, mae'r pennaeth wedi cynnig arweinyddiaeth sensitif ac egnïol i'r staff. Er gwaethaf heriau cyfyngiadau'r pandemig COVID-19, mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gref gweddill yr uwch dîm arwain, wedi llwyddo i adeiladu ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ymysg y staff. Maent wedi rhannu'u gweledigaeth er mwyn gwella'r addysgu a lles disgyblion gyda'r holl staff yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol yn briodol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cynnig cefnogaeth a chyngor defnyddiol i'w staff a hefyd yn herio tanberfformiad yn effeithiol, lle bo'i angen.

Mae arweinwyr wedi meithrin perthynas agos a chynhaliol iawn â rhieni. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw mewn nosweithiau agored, a thrwy gylchlythyron rheolaidd a fideos difyr sydd yn dathlu gwaith adrannau a disgyblion ar ei gwefan.

Mae llawer o'r rheolwyr canol yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn effeithiol. Maent yn cynnal cyfarfodydd pwrpasol sy'n trafod agweddau pwysig fel addysgu, datblygiadau cwricwlaidd a lles disgyblion. Ceir trefniadau rheoli defnyddiol rhwng arweinwyr canol a'r uwch dîm arwain, yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd i drafod strategaethau i fynd i'r afael â materion perthnasol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon strategol yn eu rôl.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sydd yn arwain at gyfleoedd defnyddiol i staff ddatblygu'n broffesiynol. Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig COVID-19, nid yw'r trefniadau hyn wedi cynnwys arsylwi gwersi llawn yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r corff llywodraethol yn angerddol dros yr ysgol ac yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn, yn enwedig wrth gynllunio'n gynnil i leddfu effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion penodol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion hyn fynychu clybiau allgyrsiol ar ôl ysgol trwy ddarparu cludiant iddynt deithio gartref. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos ag arweinwyr i osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Maent hefyd yn cydweithio'n fuddiol â'r bwrsar, sydd yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus iawn. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn feddylgar gan sicrhau defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion. Maent yn sicrhau

trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Maent yn adnabod yr angen i gryfhau'r ffocws ar sicrhau dilyniant ieithyddol disgyblion.

Ers 2020, mae'r uwch dîm arwain wedi cynllunio ac addasu'r trefniadau hunanwerthuso yn briodol. Mae'r prosesau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar rai meysydd pwysig, er enghraifft wrth sicrhau safonau lles uchel i ddisgyblion ac wrth ailstrwythuro'r arweinyddiaeth yr ysgol. Mae llawer o arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau rheoli ansawdd fel teithiau dysgu, craffu ar lyfrau, a gwrando ar ddysgwyr. I ategu'r dystiolaeth o'r gweithgareddau hyn, maent yn gwneud defnydd da o ddata olrhain a monitro cynnydd disgyblion er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Serch hyn, nid ydynt yn arfarnu'r addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu yn ddigon manwl. Mae hwn yn cyfyngu ar yr effaith y mae arweinwyr yn ei chael wrth wella ansawdd yr addysgu a'r cynnydd mae'r disgyblion yn ei wneud.

Mae prosesau hunanwerthuso wedi caniatáu i arweinwyr adnabod blaenoriaethau priodol gan gynnwys ffocws ar fedrau disgyblion, ansawdd yr addysgu a datblygiadau cwricwlaidd. Fodd bynnag, ar brydiau, nid yw'r camau gweithredu yn y cynlluniau gwella yn ddigon pwrpasol. Er enghraifft, er bod adnabyddiaeth o'r angen i gynllunio ar gyfer datblygu medrau yn y Gymraeg, mae'r cynllunio ar gyfer hyn yn danddatblygedig.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas er mwyn gwrando ar ddisgyblion. Er enghraifft, mae pwyllgorau'r ysgol wedi gwerthuso polisi ymddygiad yr ysgol, ac o ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwella'r system wobrwyo. Yn ogystal, mae'r ysgol yn defnyddio holiaduron yn effeithiol er mwyn casglu barn rhieni ac maent yn ymateb yn briodol i'r rhain. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi addasu trefniadau adrodd er mwyn rhoi mwy o fanylion am gynnydd disgyblion i rieni.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o weithgareddau hunanwerthuso er mwyn cynllunio rhaglen eang o weithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer staff dysgu, cymorthyddion a staff ategol. Mae cysylltiadau agos rhwng y rhaglen hon, cynllun gwella'r ysgol, a'r trefniadau rheoli perfformiad. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu diwylliant lle mae staff yn awyddus i dderbyn hyfforddiant er mwyn gwella ansawdd eu gwaith a datblygu yn eu rolau. Darperir gweithgareddau pwrpasol i gefnogi datblygiad gwybodaeth broffesiynol, dealltwriaeth a medrau addysgu ac arweinyddiaeth staff. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant defnyddiol iawn ar sut i greu perthnasoedd gwaith adeiladol â'u disgyblion. Mae cyfleoedd buddiol i staff rannu arferion da o fewn a thu allan i'r ysgol ac mae cefnogaeth gynhwysfawr ar gyfer athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)
Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 12/12/2022